



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Cymraeg

Mae'r ddogfen / ffurflen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document / form is also available in Welsh.



Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Perfformiad Safonau'r Gymraeg

2024 i 2025



Cynnwys

Gair am yr adroddiad hwn	3
Rhestr termau	4
Crynodeb Gweithredol	5
1: Oes gennych chi ddull strategol o wreiddio'r Gymraeg o'r Bwrdd i'r Ward?	6
2: Sut ydych chi wedi hyrwyddo'r Gymraeg gyda'ch gweithlu a'r cyhoedd?	7
3: Sut ydych chi'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y Gymraeg ac amddiffyn fy hawliau?	14
4: Ble mae'n fwyaf tebygol y bydda i'n gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'r Bwrdd lechyd?.....	19
5: Sut ydych chi wedi gwella sgiliau Cymraeg eich gweithlu presennol?	21
6: Sut ydych chi wedi ystyried sgiliau Cymraeg gweithlu y dyfodol?	26
7: Sut ydych chi wedi delio â chwynion a phryderon?	27
8: Pa ardaloedd sy'n haeddu cydnabyddiaeth arbennig am eu hymrwymiad i'r Gymraeg?	28
9: Risgiau a nodwyd a'r camau nesaf	36
Atodiad 1: Methodoleg Dangosfwrdd Iaith a Diwylliant Cymru	37

Gair am yr adroddiad hwn

Dathlu'r Gymraeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM): Ein Diweddariad ar gyfer 2025

Eleni, rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at sut rydym yn ymgorffori'r Gymraeg ar draws ein sefydliad—o'r gofal a ddarparwn i'r ffordd rydym yn gweithio bob dydd.

Rydym yn falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud i hyrwyddo dwyieithrwydd a chefnogi ein cymunedau Cymraeg eu hiaith. Fe welwch enghreifftiau go iawn o sut rydym yn rhoi ein gwerthoedd ar waith yn yr adroddiad hwn. Mae croeso i ddarllenwyr gymharu'r adroddiad hwn â'r un blaenorol, ac rydym yn hyderus y gellir gweld y trywydd yn glir.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Safon y Gymraeg 120. Gallwch ddarllen ein hysbysiad cydymffurfio llawn, sy'n nodi ein holl ddyletswyddau deddfwriaethol ar gyfer y Gymraeg [yma](#).

Eisiau gwybod mwy am eich hawl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni? Gweler ein taflen wybodaeth i gleifion [yma](#).

Cafodd yr adroddiad hwn ei gymeradwyo gan ein Pwyllgor Cyflawni Gweithredol ym mis Hydref 2025. Byddem yn awyddus i glywed eich barn—anfonwch e-bost atom yn CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Gallwch hefyd rannu adborth ar eich profiad o ofal drwy ein Mesurau Profiad a Adroddwyd gan Gleifion [yma](#).



Rhestr termau

Term	Beth rydyn ni'n feddl
Cynnig Rhagweithiol	Mae hyn yn golygu bod staff y Bwrdd Iechyd yn gofyn i chi am eich dewis iaith ac yn cofnodi hyn, yn hytrach na disgwyl i chi ddweud wrthym.
Safonau'r Iaith Gymraeg	Dyma'r dyletswyddau statudol y mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd eu dilyn yn y ffordd rydym yn trin y Gymraeg.
Adroddiad perfformiad	Adroddiad ar ba mor dda y mae sefydliad yn perfformio mewn maes penodol yn ystod cyfnod penodol o amser
Cydymffurfiaeth	P'un a ydym yn dilyn y dyletswyddau statudol a osodir ar y Bwrdd Iechyd ai peidio
Sicrwydd	Y broses o ddarparu tystiolaeth i'r Bwrdd a chyrrff eraill bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau, a'r hyn y mae'n ei wneud i osgoi diffyg cydymffurfio
Dadansoddiad rhanddeiliaid	Dadansoddi rhanddeiliaid yw'r broses o nodi pawb sydd â diddordeb mewn darn o waith, ac yna deall beth sydd ei angen arnynt, faint o ddylanwad sydd ganddynt, a sut y bydd y prosiect yn effeithio arnynt
Ymgysylltu	Mae ymgysylltu yn cyfeirio at gyfranogiad a chyfranogiad gweithredol unigolion o fewn sefydliad neu gymuned
Newid ymddygiad	Newid ymddygiad yw'r broses o newid gweithredoedd neu arferion
Cynllunio strategol	Cynllunio strategol yw creu map ffordd i osod gweledigaeth hirdymor ac yna darganfod y camau, y blaenoriaethau a'r dyraniad adnoddau gorau i'w gyflawni
Cynllunio'r gweithlu	Cynllunio'r gweithlu yw'r broses o sicrhau bod gan sefydliad y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y rolau cywir ar yr amser cywir i gyflawni ei nodau busnes
WPAS	System Gweinyddu Cleifion Cymru, system sy'n cofnodi gwybodaeth am gleifion
RADIS	Y system a ddefnyddir mewn Radioleg sy'n cofnodi gwybodaeth am gleifion

Crynodeb Gweithredol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) yn parhau i wneud cynnydd cryf o ran ymgorffori'r Gymraeg ar draws ein gwasanaethau, ein gweithlu a'n diwylliant. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at gyflawniadau allweddol o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025, gan ddangos sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ac yn hyrwyddo gofal iechyd dwyieithog. Dyma ein huchafbwyntiau allweddol ar gyfer y flwyddyn.

Ymrwymiad Strategol

- Mae blaenoriaethau'r Gymraeg wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau hirdymor BIPCTM, gan gynnwys y Cynllun Pobl 2025–2030 a'r Strategaeth 5 Mlynedd ar gyfer ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg. Olrheinir hyfedredd yn y Gymraeg bellach fel mesur llwyddiant allweddol yn y Cynllun Pobl.

Ymgysylltu â'r Gweithlu

- Cymerodd dros 200 o staff ran mewn dysgu Cymraeg—ein nifer uchaf erioed ac yn gynydd ar 64 llynedd. Mae ymgyrchoedd, adnoddau a hyfforddiant wedi rhoi hwb i hyder.

Recriwtio

- Mae dros 90% o'n hysbysebion swydd a swydd ddisgrifiadau bellach yn ddwyieithog, i fyny o 0%. Mae coeden benderfyniadau newydd yn helpu rheolwyr i asesu anghenion iaith Gymraeg pob swydd wag. Hysbysebwyd saith swydd fel rhai oedd angen sgiliau yn y Gymraeg.

Profiad y Claf

- Rydym yn gweld defnydd uwch o'r Gymraeg mewn gwasanaethau fel Nyrsio, Therapiau, Radioleg a Gofal Sylfaenol. Mae staff yn gwisgo bathodynau a cortynnau gwddf i ddangos eu bod yn siarad Cymraeg. Mae hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu hyrwyddo ar-lein a thrwy ymgyrchoedd.

Monitro a Sicrwydd

- Mae dangosfwrdd newydd yn olrhain cynnydd ar draws chwe maes hollbwysig. Mae cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg wedi gwella, gyda 62% bellach wedi'u graddio'n "Sicrwydd Uchel", sy'n gynydd o 60%.

Dysgu a Hyder

- Mae llawer o staff wedi gwella eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg drwy sesiynau wedi'u teilwra, fel y mesurwyd gan ein model gwerthuso. Mae grwpiau cymorth cyfoedion yn ymgorffori'r Gymraeg mewn ymarfer dyddiol.

Ymgysylltu â'r gymuned

- Roedd BIPCTM yn bresennol ar y Maes yn yr Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf eleni, cynhaliwyd diwrnodau hyrwyddo, a dathlon ni ddiwylliant Cymru trwy gerddoriaeth ac adnoddau dwyieithog.

Cwynion a Chydnabyddiaeth

- Derbyniwyd a datryswyd dwy gŵyn. Mae gwasanaethau fel Therapiau, Radioleg, a Gofal Sylfaenol yn cael eu cydnabod am eu hymrwymiad i'r Gymraeg.

1: Oes gennych chi ddull strategol o wreiddio'r Gymraeg o'r Bwrdd i'r Ward?

Cynllun Tymor Canoliq Integredig

Mae'r Cynllun Tymor Canoliq Integredig yn ddogfen gynllunio statudol a gyhoeddir yn flynyddol, sy'n nodi sut y bydd sefydliadau'r GIG yn defnyddio eu hadnoddau dros gyfnod o 3 blynedd i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth. Cafodd ein gwaith ar ddatblygu'r Gymraeg a'r prif flaenoriaethau yn ystod ei gylch cynllunio eu cynnwys yn y cynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Fodd bynnag, cydnabyddwn y bydd angen cynnwys mwy, yn enwedig mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu ac ar lefel y Grwpiau Gofal, mewn fersiynau yn y dyfodol.



Cynllun Pobl a chynllunio strategol tymor hwy

Cyhoeddodd BIPCTM ei Gynllun Pobl ar gyfer 2025-2030 yn ystod y cyfnod adrodd. Mae ein Cynllun Pobl yn crynhoi'r camau gweithredu pwysicaf y mae angen i ni eu cymryd i gefnogi cyflawniad ein strategaeth 10 mlynedd, *CTM2030 Ein Hiechyd, Ein Dyfodol* o ran ein gweithlu, ac i greu CTM lle gall pawb ffynnu. Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i'r Gymraeg yn benodol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu. O ystyried y gwella sydd wedi bod ym mhob maes arall o ddarpariaeth ddwyieithog a amlinellir isod, y ffocws ar ddatblygu sgiliau Cymraeg yw'r cam naturiol nesaf bellach.

Bydd hyn yn cael ei olrhain gan fesur llwyddiant craidd ar gyfer y Cynllun Pobl, sef "*Y Gymraeg: nifer a hyfedredd staff sy'n siarad Cymraeg*".

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein Cynllun Strategol 5 Mlynedd ar gyfer Cynnig Ymgynghoriadau Clinigol yn y Gymraeg o dan Safon y Gymraeg 110, gan gyd-fynd hefyd â Chynllun 5 Mlynedd Mwy na Geiriau, yn enwedig Cam Gweithredu 18. Mae'r cynllun hwn, sydd ar gael [yma](#), yn canolbwyntio ar gryfhau ein gallu i ddarparu ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg, gan sicrhau y gall cleifion dderbyn gofal yn eu dewis iaith. Mae amcanion allweddol yn cynnwys:

- Cynyddu achosion o'r Cynnig Rhagweithiol ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymunedol, lle dylai'r Bwrdd iechyd fod yn gofyn i gleifion beth yw eu dewis iaith yn hytrach na disgwyl i'r claf ddweud wrth y darparwr;
- Cryfhau cynllunio'r gweithlu i gefnogi darparu gwasanaethau dwyieithog;
- Hyrwyddo diwylliant o ddwyieithrwydd o fewn y sefydliad;
- Gwella ymwybyddiaeth cleifion o'u hawliau iaith;
- Monitro a gwerthuso cynnydd drwy ddangosyddion perfformiad allweddol a strwythurau llywodraethu clir.



Cynllunio gweithredol blynyddol

Mae gan Wasanaeth Datblygu'r Gymraeg gynllun gweithredol bob blwyddyn, sy'n dod â chynllunio tymor hwy yn fyw ar gyfer y flwyddyn honno. Mae cynnydd ar y blaenoriaethau hyn wedi'i amlinellu yn yr adroddiad hwn.

2: Sut ydych chi wedi hyrwyddo'r Gymraeg gyda'ch gweithlu a'r cyhoedd?

Mae ymgorffori'r Gymraeg yn golygu newid diwylliant—ac mae hynny'n dechrau gyda chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rolau. Dyna pam mae Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn thema arweiniol, gan sbarduno newid go iawn ar draws y system.

Fframwaith Cyfathrebu Mewnol

Mae cyfathrebu strategol yn sbarduno newid. Pan gaiff ei wneud yn dda, mae'n hybu ymgysylltiad ac yn helpu staff i ymrwmo i fentrau fel datblygu'r Gymraeg.¹ Mae ein diweddariadau'n dilyn model COM-B—gan ganolbwyntio ar Allu, Cyfle, a Chymhelliant—i gefnogi newid ymddygiad go iawn ar draws y sefydliad.²

Rydym yn gwneud hyn drwy bedwar categori allweddol:

Da iawn: yn dathlu arfer gorau staff, gan ddefnyddio prawf cymdeithasol i hybu cymhelliant.

Mwy na Geiriau: yn tynnu sylw at sut mae'r Gymraeg yn gwella profiad cleifion—cymhelliant arall.

Cymorth Staff: yn sicrhau mynediad at adnoddau a chynghor, gan feithrin gallu a chyfleoedd.

Sgiliau, Dysgu a Datblygu: yn hyrwyddo hyfforddiant i feithrin sgiliau Cymraeg—gan wella'r gallu i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. Eleni fe wnaethon ni ychwanegu ail fath at y categori hwn hefyd, i rannu straeon staff am ddysgu Cymraeg ac i dynnu sylw'n benodol at eu cyflawniad wrth ennill sgiliau (gweler 'Stori Wendy' isod fel enghraifft).

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon yn unig, rydym wedi rhannu 25 o ddiweddariadau ar draws ein sianeli cyfathrebu mewnol, un bob pythefnos ar gyfartaledd. Gellir gweld rhai enghreifftiau ysbrydoledig gan ein staff isod.



¹ Hargie, O., & Tourish, D. (2009). *Auditing Organisational Communication: A Handbook of Research, Theory, and Practice*. Routledge; Men, L.R., & Stacks, D.W. (2013). The impact of leadership style and employee empowerment on perceived organizational reputation. *Journal of Communication Management* 17(2), pp. 171-192.

² Gellir dod o hyd i drafodaeth fwy technegol yma: Mitchie, S. et al. (2011), The behaviour change wheel: a new method for characterising and designing behaviour change interventions. *Implementation Science* 6(42).

Y Gymraeg yn CTM
Welsh at CTM



Mwy na geiriau: Cof Cymorth
It's more than just words: **Staff support**

1. Sgwrs Cynrog Cymraeg

Hoffech chi gael sgwrs sydyn 15 munud ar sut y gall Tîm y Gymraeg eich helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich gwasanaeth, neu ar unrhyw ofynion Cymraeg?

2. Cyfieithu

Angen cyfieithiad cyflym? Anfonwch e-bost at CTT_welsh_translation@wales.nhs.uk a nodwch ddyddiad cau os yw'n berthnasol, a byddwn yn ei anfon yn ôl atoch.

3. Gwell 'da chi anfon neges?

Gyrrwch neges at CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk a byddwn yn cysylltu â chi.

1. Welsh Language Check-in Chat

Would you like a quick 15-minute chat on how the Welsh Language Team can help you use more Welsh in your service, or on any Welsh language requirements?

2. Translation

Need a quick translation? Just email CTT_welsh_translation@wales.nhs.uk and note a deadline if relevant, and we'll get it back to you.

3. Rather just send a quick email?

Just drop us a message to CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk and we'll get back to you.

Y Gymraeg yn CTM
Welsh at CTM



Welsh Language Skills Self-Assessment Tool

Level 0 - No Skill

Level 1 - Entry

Level 2 - Foundation

Level 3 - Intermediate

Level 4 - Higher

Level 5 - Proficiency

Wendy's story...

During my time in the Increasing Confidence scheme, I was immediately put at ease and supported to feel comfortable making me feel 'free' to speak Welsh instead of feeling stifled and unsure of myself.

Attending the Cynllun Codi Hyder encouraged me to further develop and improve my Welsh language skills by applying for the Canolradd cwrs this September and to use Welsh not only in work with patients and colleagues but in the wider community.

I've also just returned from Confidence Building weekend at Nant Gwrtheyrn which was so fun and it really helped me feel more confident using Welsh.



Y Gymraeg yn CTM
Welsh at CTM



Mwy na geiriau: Da iawn
It's more than just words: **Da iawn**

Da iawn i Helen Jones, Rheolwr Gweinyddol Ffisiotherapi, am sicrhau bod eu disgrifiadau swydd a'r holl wybodaeth ar Trac lle bo angen yn ddwyieithog. Dywedodd Helen:

Ers lansio'r gwasanaeth cyfieithu Cymraeg pwrpasol, mae'r adran Ffisiotherapi wedi bod yn rhagweithiol wrth ddefnyddio'r gwasanaeth yn llawn, gan adedladdu archif o ddogfennau swyddi gwag Saesneg/Cymraeg, ar ôl cael yr holl ddisgrifiadau swydd, hysbysebion a ffurflenni Trac wedi'u cyfieithu cyn poblogi gwefan Trac. Rydym wedi rhyfeddu at gyflymdra'r tîm wrth gwblhau'r cyfieithiadau. Mae'r tîm cyfieithu Cymraeg wedi bod yn ynod gymwynasgar a chyfrifol gyda'r holl ymholiadau cyfieithu - Diolch yn Fawr!

Ewch i dudalen Sharepoint y Gymraeg neu anfonwch neges at y tîm ar CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk am ragor o wybodaeth.

Da iawn to Helen Jones, Physiotherapy Administration Manager, on ensuring their Job descriptions and all information on Trac where required is bilingual. Helen said:

Since the launch of the a dedicated service for Welsh translation, the Physiotherapy department have been pro-active in using the service fully, building up an archive of English/Welsh vacancy documentation, having had all job descriptions, adverts and the Trac forms translated before populating the Trac website. We've been amazed at the fast turnaround from the team in completing the translations. The Welsh translation team have been extremely helpful and responsible with all translation queries - Diolch yn Fawr!

Visit the Welsh Language Sharepoint page or send the team a message on CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk for more information.

Y Gymraeg yn CTM
Welsh at CTM



Mwy na geiriau: Da iawn
It's more than just words: **Da iawn**



Mae pob ward wedi gweithio'n galed iawn i greu amgylchedd dwyieithog croesawgar o arwyddion ac arddangosiadau i wybodaeth i gleifion. Mae timau'r ward wedi creu llyfryn i deuluoedd ac mae hwn yn sôn am sut y gall plant a theuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda staff ar y ward.



All wards have worked really hard in creating a welcoming bilingual environment from signs and displays to patient information. The ward teams have created a booklet for families and this talks about how children and families can use Welsh with staff on the ward.



Mae'r timau hefyd wedi newid dogfennaeth cleifion mewnol yn ddiweddar er mwyn cofnodi dewis iaith plant a theuluoedd, gan wreiddio dull y Cynnig Rhagweithiol.



The teams have changed in-patient documentation recently so that the language of children and families can be recorded, embedding the Active Offer approach.



Roedd tîm PCH wedi datlu 'Diwrnod Su'mai Shw Mae' trwy anng y Gymraeg gyda gweithgareddau ac arddangosfa o lyfrau Cymraeg.



PCH celebrated 'Su'mai Shw Mae Day' by prompting Cymraeg with activities and a display of Welsh language children's books.



Ymwelodd Tîm y Gymraeg hefyd â Ward 17/18 yn RGH a helpu i gyfieithu'r arddangosfeydd. Os hoffech chi ymweliad a chymorth fel hynny, rhowch wybod i ni ar CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk



The Welsh Language Team visited Ward 17/18 in RGH and helped translate the displays.

If you'd like a visit and some help, just let us know at CTT_WelshLanguage@wales.nhs.uk



Ymgyrch fewnol i wella cydymffurfiaeth â Safonau Recriwtio'r Gymraeg

Eleni dechreuodd BIPCTM weithredu Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â recriwtio a phenodi (gweler isod am fwy o fanylion ynghylch sut mae BIPCTM bellach yn cydymffurfio â'r rhain). Roedd y gwaith hwn yn destun ymgyrch ffurfiol, wedi'i chynllunio fel rhan o Fforwm Ymgysylltu Strategol BIPCTM. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- Creu cynllun cyfathrebu manwl gyda mesurau gwerthuso;
- Gwaith dadansoddi rhanddeiliaid a nododd 21 o wahanol grwpiau o randdeiliaid i ymgysylltu â nhw gan ddefnyddio dadansoddiad 'Meddwl, Teimlo, Gwneud, Sut' i bersonoli negeseuon;
- Cynllun manwl ar gyfer ble i gyfathrebu, pryd, pa blatfform a pha asedau;
- Digwyddiad i'r holl staff i esbonio'r newidiadau.

Sicraodd hyn fod gan ein staff gyfle i ddysgu am y newidiadau i recriwtio ac roedd yn ddull strategol, wedi'i gynllunio i ymgorffori cydymffurfiaeth.

Safle SharePoint wedi'i hyrwyddo'n dda

Mae tudalen bwrpasol ar gyfer cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae ar gael drwy hafan mewnwyd BIPCTM, ac mae wedi'i ailddatblygu gan ddefnyddio offer MS Office 365 ac mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth glir ar sut i gysylltu â Gwasanaeth Datblygu'r Gymraeg;
- Y newyddion a'r diweddariadau diweddaraf;
- Fideo 'Pam Cymraeg yn CTM';
- Cyfleoedd dysgu Cymraeg a dolen archebu syml i sesiynau 'Croeso i'r Gymraeg';
- Canllawiau ar ymgorffori'r Gymraeg a bodloni'r Safonau;
- Adnoddau i'w lawrlwytho megis templedi Allan-o'r-swyddfa dwyieithog;
- Gwybodaeth am hawliau staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith;
- Adran sylwadau ac adborth.

Cyngor ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae canllawiau ar gydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llundio Polisi, Safonau Recriwtio a Phenodi a defnyddio'r Gymraeg mewn Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn benodol ar gael ar SharePoint. Caiff y rhain eu rhannu'n rheolaidd gyda staff. Mae hyn yn golygu bod y Safonau wedi'u dehongli a'u symleiddio ar gyfer cyd-destun penodol BIPCTM. Mae'r rhain i gyd hefyd wedi'u datblygu gan ddefnyddio strategaeth 'Llais y Gymraeg' i feithrin perthyn a pharch, a brandio BIPCTM, wedi'u strwythuro o amgylch 'Pam', 'Sut', a 'Beth' rydym yn ei wneud yn y Gymraeg, ac mae enghreifftiau ymarferol ac astudiaethau achos wedi'u cynnwys lle bo'n berthnasol.

Modiwl ESR Gorfodol am Ymwybyddiaeth Iaith

Mae modiwl ymwybyddiaeth iaith Cymru gyfan yn ofyniad hyfforddi gorfodol. Mae'r modiwl hwn yn trafod pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd i siaradwyr Cymraeg, Safonau'r Gymraeg ac yn chwalo rhai camsyniadau cyffredin am yr iaith. Ym mis Mawrth 2025, roedd 83% o staff wedi'i gwblhau, sy'n gynydd canrannol o 7.7% o'i gymharu â'r llynydd. Mae hyn yn golygu bod dros 11,000 o aelodau o staff wedi ei gwblhau.

Ymgysylltu â staff

Eleni, cymerodd Gwasanaeth Datblygu'r Gymraeg ran yn y sesiynau canlynol, gyda 'sesiwn ymgysylltu' wedi'i diffinio fel a ganlyn:



Cyfarfod, y tu allan i Wasanaeth Datblygu'r Gymraeg ac heb gynnwys cyfarfodydd allanol â phobl mewn rolau tebyg yn ymwneud â'r Gymraeg ledled Cymru, Llywodraeth Cymru neu gyrrff eraill a lle mai unig ddiben y cyfarfod neu ran ohono oedd trafod y Gymraeg.

- **74** o sesiynau ymgysylltu gwahanol gyda staff a rheolwyr ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys y sesiwn Holi ac Ateb i holl Staff CTM a Fforwm Arweinwyr CTM;
- **4** cyfarfod ffurfiol i uwch arweinwyr, tri ohonynt yn Bwyllgorau'r Bwrdd (gweler isod am ragor o wybodaeth am lywodraethu a sicrwydd);
- **2** gyfres o ymweliadau safle, gyda **2** ymweliad yn ystod y flwyddyn gyda stondin hyrwyddo yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Cwm Rhondda, Ysbyty Cwm Cynon, Parc Iechyd Keir Hardie ac unwaith ym Mharc Iechyd Dewi Sant.

Mae'r sesiynau ymgysylltu hyn wedi llwyddo i godi proffil y Gymraeg ar draws BIPCTM. Er enghraifft, cyflawnodd yr ymweliadau â safleoedd y canlynol:

- Fe wnaethon ni rannu bron i **90** o adnoddau gwahanol gan gynnwys 25 o gortynnau gwddf a 12 bathodyn iaith Gwaith. Dyna **37** o siaradwyr Cymraeg newydd yn adnabod eu hunain i siaradwyr Cymraeg eraill sgil ymweliadau â safleoedd;
- Fe wnaethon ni gynnal bron i **120** o sgysiau gwahanol am y Gymraeg gyda'n staff;
- Fe wnaethon ni siarad â bron i **40** o gleifion am y Gymraeg mewn gofal iechyd.

Rhannu adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau uchod, yn ystod y flwyddyn adrodd hon fe wnaethom hefyd rannu **186** o adnoddau iaith, ac roedd **179** ohonynt yn fathodynau a chortynnau gwddf, posterï a Phecynnau Cymraeg i Wardiau a Gwasanaethau.

CTM ar y maes: Y Gymraeg a'i Diwylliant wrth galon iechyd cyhoeddus yn yr Eisteddfod

Ym mis Awst 2024, gwnaeth BIPCTM ei ymddangosiad cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Ynysangharad gyda "CTM ar y Maes"—menter iechyd a lles fywiog, aml-bartner. Roedd hyn yn garreg filltir yn ymrwymiad CTM i ymgorffori'r iaith a'r diwylliant Cymraeg mewn gofal iechyd.

Hyrwyddo'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd

- Tynnodd CTM sylw at hawliau cleifion i dderbyn gofal yn y Gymraeg, gan gyd-fynd â nodau cydraddoldeb iaith cenedlaethol.
- Aeth digwyddiadau fel "Siarad Cymraeg gyda Meddyg? Hawl neu hunllaf?" i'r afael â heriau a chyfluoedd y byd go iawn i gleifion sy'n siarad Cymraeg.
- Roedd diwrnodau thematig yn cynnwys ffocws penodol ar wasanaethau Cymraeg, gan atgyfnerthu pwysigrwydd gofal sy'n sensitif i ddiwylliant.

Diwylliant fel Ffordd o Wella Iechyd

- Defnyddiodd CTM leoliad diwylliannol yr eisteddfod i gyflwyno negeseuon iechyd hygrych, hyrwyddo lles meddwl, a lleihau unigedd cymdeithasol.
- Sicrhodd cydweithrediadau â grwpiau fel Pobl yn Gyntaf Cwm Taf ddeunyddiau cynhwysol, hawdd eu darllen ac ymgysylltiad dan arweiniad y gymuned.

Cyrhaeddiad Eang ac Effaith Barhaol

- Roedd ymgyrch ddigidol CTM (#CTMAYMaes) yn ymhelaethu ar themâu dyddiol ac yn annog cyfranogiad y cyhoedd.




Rhoddon ni wersi o'r Eisteddfod ar waith i Ddiwrnod Iechyd Lluoedd Arfog CTM ym mis Mehefin 2025, gan ymestyn y model o allgymorth â gwreiddiau diwylliannol.

Hyrwyddo hawliau i'r Gymraeg

Mae BIPCTM wedi hyrwyddo'r hawliau sydd gan ein cleifion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sawl ffordd wahanol eleni.

Gwefan

Mae hygyrchedd y Gymraeg ar ein gwefan wedi cymryd cam mawr ymlaen. Mae dangosydd clir, amlwg bellach yn ymddangos ar frig ac ar waelod y sgrin, gan nodi bod gwasanaeth Gymraeg ar gael. Mae'r gwelliant gweledol hwn—sef y botwm logo oren newydd ar gyfer y Gymraeg—wedi'i gyflwyno ar draws holl wefannau GIG Cymru yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Mae'r cyflawniad hwn yn dod o fenter dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg mewn cydweithrediad ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gyda'r nod o gryfhau gwelededd a hyrwyddo cynnwys Gymraeg ar-lein.



Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Atebir gohebiaeth Gymraeg yn y Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi. Mae'r dudalen hon ar gael yn Gymraeg drwy bwyso'r botwm ar y dde ar frig y dudalen.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh or English. Welsh language correspondence will be replied to in Welsh, and this will not lead to a delay. This page is available in Welsh by clicking 'Cymraeg' at the top right of this page.

Cyfryngau cymdeithasol

Rydym yn hyrwyddo ein sianeli cyfryngau cymdeithasol Gymraeg drwy gynnwys neges yn adrannau 'Amdanom ni' y tudalennau Saesneg bod tudalen Gymraeg ar gael. Rydym yn gwneud hyn ar ein prof sianeli, Facebook ac X.

Tudalen wybodaeth am hawliau i'r Gymraeg

Rydym yn cynnig tudalen we bwrsol sy'n grymuso cleifion gyda gwybodaeth glir am eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal iechyd. Mae'r dudalen yn cynnwys taflen wybodaeth ddefnyddiol i gleifion ac mae hefyd yn amlinellu sut y disgwylir i wasanaethau Gofal Sylfaenol gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r dudalen we ar gael [yma](#).

Gweler y daflen [yma](#).

Ymgyrch ym mis Rhagfyr

Fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol 'Defnyddia dy Gymraeg' ym mis Rhagfyr 2024, lluniodd BIPCTM gynllun ymgyrch manwl a redodd yn fewnol ac yn allanol.

Dyma beth wnaethon ni:

- Creon ni fideo yn amlinellu beth roedden ni wedi bod yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg. Pwrpas hyn oedd rhoi hyder i gleifion ddefnyddio'r Gymraeg a'n bod yn gweithio i sicrhau y gallwch chi wneud hynny.
- Rhannwyd sawl ffeithlun ar draws LinkedIn, Facebook ac X ynglŷn â pha hawliau sydd gan gleifion i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Cafodd negeseuon eu llunio'n ofalus fel rhan o'r cynllun i sicrhau bod y ffordd rydyn ni'n siarad am y Gymraeg yn groesawgar ac yn galonogol.

Dyma oedd yr effaith uniongyrchol:

Platform	Argraffiadau	Edrychiadau	Data arall
Prif dudalen Facebook gorfforaethol Saesneg	10,713	Wedi'i gweld am 6.545 eiliad ar gyfartaledd	283 o gliciau i gyd 228 o ddefnyddwyr wedi ymgysylltu 26 ymateb a sylw 2 o raniadau
Instagram	2,850	503	18 o hoffterau 5 o raniadau 1 arbediad
Prif dudalen Facebook gorfforaethol yn y Gymraeg	291	251	28 o bobl wedi ei chwarae
LinkedIn	2,4448	1,127	Cyrhaeddodd 1,295 o aelodau 176 o ymgysylltiadau i gyd 6 ailbostiad 29 ymateb

Sicrhaodd y bartneriaeth strategol gyda'n tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu fod yr ymgyrch wedi cyrraedd llawer iawn o bobl. Mae'n ganlyniad cadarnhaol bod miloedd o unigolion wedi gweld negeseuon sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau i'r Gymraeg.



Hyrwyddo Gwasanaethau Gofal Sylfaenol sydd ar gael yn y Gymraeg

Mae BIPCTM yn parhau i'w gwneud hi'n hawdd darganfod pa ddarparwyr Gofal Sylfaenol all gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg. Ar ein gwefan, mae adran bwrpasol sy'n tynnu sylw at ddarparwyr a all ddarparu'r cyfan neu ran o'u gwasanaeth yn y Gymraeg.

Ewch i'r offeryn 'Dod o hyd i'ch gwasanaeth GIG lleol' ar ein gwefan, a byddwch yn gallu gweld ar unwaith pa ddarparwyr sy'n cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg. Mae'r cyfan yn ymwneud â'ch helpu chi i gael mynediad at ofal yn yr iaith rydych yn teimlo fwyaf cyfforddus ynddi. Gweler enghraifft isod.

Taf Dental Care

Cyfeiriad

18 Morgan Street
CF37 2DS

Cysylltwch â ni

01443 400600

Cysylltiadau

01443 400600

+ Gwybodaeth Ychwanegol

[Practis Deintyddol](#)

Gwasanaethau Cymraeg ar Gael: Oes

Mae mynediad ar gael i bobl anabl

Oriau agor

Nid yw oriau agor ar gael ar hyn o bryd

3: Sut ydych chi'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y Gymraeg ac amddiffyn fy hawliau?

Mae cyfathrebu clir ac ymgysylltu ystyrlon yn rhan hollbwysig o gyflawni ein dyletswyddau Cymraeg.

Rydym hefyd yn dibynnu ar gynlluniau gwella cadarn, monitro rheolaidd, a rheolaethau effeithiol i ganfod bylchau a sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiaidau.

Gwasanaeth Datblygu'r Gymraeg

Rhan allweddol o gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg yw ein Gwasanaeth Datblygu'r Gymraeg, dan arweiniad Arweinydd y Gymraeg.

Mae'r tîm yn cefnogi staff drwy

- gynnig cyngor ar faterion y Gymraeg;
- monitro cydymffurfiaeth (gweler isod);
- cyflwyno ymwybyddiaeth iaith;
- rheoli cyfieithu;
- hyrwyddo dysgu Cymraeg yn y gwaith
- a rhannu adnoddau i ymgorffori'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

Gyrru Newid Trwy Fewnwelediad: Dangosfwrdd Iaith a Diwylliant Cymru

Er mwyn cyflymu cynnydd wrth ymgorffori'r Gymraeg ar draws ein sefydliad, rydym wedi lansio Dangosfwrdd Iaith a Diwylliant newydd sbon eleni yn ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae'r offeryn hwn yn dwyn ynghyd bwyntiau data allweddol sy'n taflu goleuni ar y meysydd sydd bwysicaf i'n llwyddiant. Mae'r fethodoleg y tu ôl i bob metrig wedi'i hegluro yn Atodiad 1.

Mae'r dangosfwrdd yn canolbwyntio ar chwe cholofn strategol:

Profiad y Claf: Beth mae ein cleifion yn ei ddweud wrthym trwy eu profiadau? Rydym yn archwilio pa mor hawdd y gallan nhw ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gwasanaethau, a beth mae eu hadborth—canmoliaeth a phryderon—yn ei ddatgelu am ymgysylltiad ein staff â'n hiaith.

Recriwtio: Ydyn ni'n chwilio am sgiliau iaith Gymraeg yn ein harferion recriwtio?

Dysgu Ein Hiaith: Faint o'n staff sy'n cymryd camau i ddysgu Cymraeg?


Cymorth: Ydy staff yn estyn allan ac yn ymgysylltu â Thîm y Gymraeg?

Diwylliant ac Arweinyddiaeth: Ydy ein harweinwyr wedi'u harfogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg? Ydy arweinwyr newid yn ystyried effaith eu penderfyniadau ar ein hiaith?

Aeddfedrwydd Polisi: Yn seiliedig ar ein hunanasesiad mewnol, pa mor dda rydym yn dilyn deddfwriaeth y Gymraeg?

Bob blwyddyn, bydd y dangosfwrdd hwn yn cael ei gynnwys yn ein hadroddiad blynyddol, gan olrhain cynnydd ac amlygu twf mewn meysydd allweddol—gan ein helpu i ddangos trywydd clir, ar i fyny yn ein hymrwymiad i'r Gymraeg. Bydd hefyd yn strwythuro diweddariadau chwe-misol i'n Pwyllgor Cyflawni Gweithredol.

Gellir gweld y sefyllfa ar gyfer 2024-2025 isod.



Methodoleg Archwilio'r Gymraeg

Mae Dangosfwrdd y Gymraeg uchod yn rhoi golwg lefel uchel ar berfformiad BIPCTM yn erbyn meysydd allweddol. Mae'n dangos pa mor ymrwymedig rydym ni i wneud y Gymraeg yn rhan naturiol o'n gwasanaethau.

Gan adeiladu ar yr arolwg gwaelodlin o gydymffurfiaeth 2023–2024 a ddisgrifiwyd yn adroddiad y llynedd, rydym bellach hefyd wedi datblygu methodoleg archwilio gadarn i asesu cydymffurfiaeth â phob safon. Mae hyn yn sicrhau adrodd cyson, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac yn ein galluogi i olrhain cynnydd yn erbyn ein hysbysiad cydymffurfio (gweler y fethodoleg lawn [yma](#) o dan 'Adroddiad Perfformiad Safonau'r Gymraeg diweddaraf').

Er y gellir asesu rhai Safonau drwy arsylwi uniongyrchol, mae eraill—megis dogfennaeth ddwyieithog ac arwyddion dros dro—yn gofyn am sawl ffynhonnell ddata i lunio amcangyfrif dibynadwy. O ystyried maint a chymhlethdod ein sefydliad, mae gwirio llawn o bob achos o gydymffurfiaeth, neu fel arall, yn anymarferol. Fodd bynnag, mae ein methodoleg yn caniatáu i ni lunio penderfyniad sicrwydd credadwy ar lefel sefydliadol yn seiliedig ar ddata cynrychioliadol. Gellir gweld canlyniadau llawn yr archwiliad hwn ar-lein drwy ddilyn y ddolen hon [yma](#) o dan 'Adroddiad Perfformiad Safonau'r Gymraeg diweddaraf'.


Gellir gweld trosolwg gweledol isod yn Ffigur 1, sy'n dangos nifer y Safonau y gellir adrodd Sicrwydd Uchel arnynt, yn hytrach na Sicrwydd Canolig, Isel neu Ddim Sicrwydd. Darperir diffiniadau isod.

Sicrwydd Uchel: Mae'r sefydliad yn cydymffurfio â'r holl ofynion o dan bob amgylchiad ac eithrio ar adegau prin.

Sicrwydd Canolig: Mae'r sefydliad yn cydymffurfio'n llawn fel arfer, ond mae diffyg cydymffurfiaeth ar rai adegau neu o ran rhai gofynion.

Sicrwydd Isel: Mae'r sefydliad yn cydymffurfio ar rai adegau neu o ran rhai o'r gofynion, ond ddim yn cydymffurfio'n llawn ac yn gyson.

Dim Sicrwydd: Nid yw'r sefydliad yn cydymffurfio â'r gofynion o gwbl, neu mae'n cydymffurfio ar adegau prin neu o ran ychydig o agweddau'n unig.



Mae Tabl 1 a 2 isod yn crynhoi'r Safonau lle mae **CYNNYDD** neu wedi'i adrodd ar eu cyfer o'i gymharu â blwyddyn adrodd 2023/2024, a pham. Mae hefyd yn dangos y safonau hynny lle mae **GOSTYNGIAD** wedi bod yn y lefel sicrwydd.

Tabl 1: **Cynnydd** yn y lefel sicrwydd ers 2023/2024

Safonau lle mae CYNNYDD wedi bod yn y lefel sicrwydd.			
Safon	Newid	Gweithgarwch	Rhesymeg
5	O SICRWYDD ISEL i GANOLIG	Anfon gohebiaeth yn y Gymraeg at bersonau.	Mae adolygiad cofnodion o geisiadau cyfieithu wedi dangos cynnydd yn nifer y ceisiadau am gyfieithu gohebiaeth.
79	O DIM SICRWYDD i SICRWYDD UCHEL	Cymeradwyo polisi mewnol ar ddefnydd mewnol y Gymraeg.	Mae polisi wedi ei gymeradwyo a bellach ar waith.
106	O DIM SICRWYDD i SICRWYDD ISEL	Aseu a ddylid categoreiddio swyddi gwag fel rhai Cymraeg Hanfodol, Dymunol, Angen Dysgu Cymraeg neu Dim angen sgiliau yn y Gymraeg, trwy asesiad gwrthrychol wedi'i gofnodi.	Mae proses a chanllawiau, ynghyd â dull archwilio, bellach ar waith. Mae staff wedi dechrau dilyn y canllawiau hyn yn ystod y flwyddyn adrodd hon.
106A	O DIM SICRWYDD i SICRWYDD UCHEL	Cyhoeddi hysbysebion swyddi yn y Gymraeg.	Mae proses a chanllawiau bellach ar waith ynghyd â phwynt gwirio i atal hysbysebion nad ydynt yn cydymffurfio.
107A	O DIM SICRWYDD i SICRWYDD UCHEL	Cyhoeddi deunydd recriwtio yn y Gymraeg, fel disgrifiadau swyddi.	

Tabl 2: **Gostyngiad** yn y lefel sicrwydd ers 2023/2024

Safonau y mae'n rhaid cyhoeddi GOSTYNGIAD yn eu lefel sicrwydd.			
Safon	Newid	Gweithgarwch	Rhesymeg
23A	O SICRWYDD UCHEL i GANOLIG	Hysbysu staff eraill ar wardiau am angen iaith claf mewnol ar ôl i hyn gael ei gofnodi e.e. drwy'r e-fyrddau gwyn digidol.	Mae nifer yr achosion o gofnodi dewis iaith claf yn is ar gyfer y bwrdd gwyn electronig nag ydyw ar gyfer Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, sy'n golygu nad yw angen iaith bob amser yn cael ei gofnodi lle gallai fod.
62	O SICRWYDD UCHEL i GANOLIG	Sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno ei hunaniaeth gorfforaethol.	Nid yw rhai gwisgoedd staff (e.e. crysau polo a chrysau) yn cynnwys y fersiwn Gymraeg ar gyfer y tîm a'r arbenigedd.
78	O SICRWYDD UCHEL i ISEL	Asesu effaith penderfyniadau mewn perthynas â Gofal Sylfaenol ar y Gymraeg.	Mae'r polisi presennol bellach wedi dyddio ac mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r polisi blaenorol wedi'i ddilyn.

Mae Tabl 3 isod yn cymharu'r sefyllfa gyffredinol yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf â'r flwyddyn hon. Mae gwelliannau o ran cydymffurfiaeth yn amlwg.

BLWYDDYN	LEFEL SICRWYDD		
	SICRWYDD UCHEL	SICRWYDD CANOLIG	DIM SICRWYDD NEU SICRWYDD ISEL
2024/25	77 safon.	23 safon.	24 safon.
Fel % o'r holl Safonau	62%	18.5%	19%
2023/24	74 safon.	21 safon.	29 safon.
Fel % o'r holl Safonau	60%	17%	23%

Gofal Sylfaenol a'r Fframwaith Sicrwydd Contractau

Bob blwyddyn mae'n ofynnol i Wasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) hunanasesu eu cydymffurfiaeth yn erbyn eu gofynion iaith. Nodir eu hymatebion ar gyfer 2024/2025 isod yn Nhabl 4 ar gyfer rhanbarth BIPCTM. Mae hyn yn dystiolaeth o fonitro darpariaeth ddwyieithog mewn cyfran sylweddol o wasanaethau Gofal Sylfaenol. Mae'r canlyniadau eu hunain hefyd yn dangos, er bod gwaith i'w wneud, bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hymgorffori fwyfwy mewn gwasanaethau meddygon teulu.³

³ Efallai na fydd rhai ymatebion yn cyfateb i 100% gan fod ymatebion 'Ddim yn berthnasol' wedi'u dileu.

Ymatebion Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Gofal Sylfaenol o dan y Fframwaith Sicrwydd Contractau		
Cwestiwn	IE	NA
A yw'r practis yn darparu gwasanaethau meddygol o dan y contract drwy gyfrwng y Gymraeg?	70%	25%
A yw'r ffurflen gofrestru newydd yn gofyn i'r claf yn benodol am ei anghenion iaith?	98%	2%
A yw'r practis yn darparu arwyddion dwyieithog?	88%	9%
A yw'r practis yn darparu posteri dwyieithog?	93%	4.5%
A yw'r practis yn darparu holiaduron cleifion newydd dwyieithog?	81%	15%
A yw'r practis yn cofnodi iaith ddewisol/iaith gyntaf cleifion yn nodiadau'r claf?	95%	4.5%
A yw'r practis yn annog staff i gofnodi iaith ddewisol y claf ar eu holl ddogfennaeth gan gynnwys atgyfeiriadau?	90%	9%
A yw'r practis yn cynnig fersiwn Gymraeg o unrhyw ddogfen neu ffurflen a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd i gleifion a/neu aelodau'r cyhoedd?	97%	2%
A yw'r practis yn darparu gwasanaethau meddygol o dan y contract drwy gyfrwng y Gymraeg?	97%	2%

Mae gwaith ar y gweill hefyd o ran ystyried Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Optometreg a Fferyllfa Gymunedol.

Llywodraethu a Sicrwydd

Mae'r Gymraeg a chydymffurfiaeth wedi bod yn destun eitem ffurfiol ar yr agenda mewn Pwyllgor Bwrdd, gyda diweddariad ar lafar a phapur i gyd-fynd, dair gwaith yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Rhoddodd y diweddariadau hyn sicrwydd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ynghylch y gwaith sy'n mynd rhagddo i fodloni Safonau'r Gymraeg. Mae'r trafodaethau hyn yn fater o gofnod cyhoeddus a gellir eu cyrchu [yma](#).

Trafodwyd recriwtio a chydymffurfiaeth â'r Gymraeg yn ffurfiol hefyd yn y Bwrdd Rheoli Gweithredol dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

4: Ble mae'n fwyaf tebygol y bydda i'n gallu defnyddio'r Gymraeg gyda'r Bwrdd Iechyd?

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i ddarllenwyr am weithlu dwyieithog presennol BIPCTM yn seiliedig ar ddata gweithlu ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn seiliedig ar ddata ar gyfer **92%** o'n gweithlu.

Ein gweithlu dwyieithog presennol

Isod mae nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar hyn o bryd, yn ôl data Mawrth 2025.


Gwrando/Siarad Cymraeg					
Lefel	2022/23	2023/2024	2024/25	Gwahaniaeth ar 23/24	Gwahaniaeth ar 23/24 fel %
0	7740	8401	9067	+666	+8%
1	1871	1961	2081	+120	+6%
2	295	305	320	+15	+5%
3	197	199	203	+4	+2%
4	223	248	264	+16	+6.5%
5	284	303	320	+17	+5.6%
Darllen Cymraeg					
Lefel	2022/23	2023/2024	2024/25	Gwahaniaeth ar 23/24	Gwahaniaeth ar 23/24 fel %
0	7873	8556	9312	+756	+8.8%
1	1702	1775	1822	+47	+2.6%
2	292	302	314	+12	+4%
3	159	171	179	+8	+4.6%
4	225	233	247	+14	+6%
5	302	326	338	+12	+3.6%
Ysgrifennu Cymraeg					
Lefel	2022/23	2023/2024	2024/25	Gwahaniaeth ar 23/24	Gwahaniaeth ar 23/24 fel %
0	8092	8774	9556	+782	+8.9%
1	1511	1595	1615	+20	+1.2%
2	290	288	306	+18	+6.25%
3	173	187	200	+13	+6.9%
4	188	195	205	+10	+5%
5	262	292	297	+5	+1.7%

Ble mae'n fwyaf tebygol y byddaf yn gallu defnyddio'r Gymraeg gyda staff clinigol?

Mae'r dadansoddiad a gyhoeddwyd [yma](#) ym mis Medi 2024 yn nodi'n fanwl pa grwpiau staff (h.y. nyrsys neu therapyddion) a pha feysydd sydd fwyaf tebygol o allu defnyddio'r Gymraeg pan fydd gennych chi neu aelod o'r teulu apwyntiad neu pan fyddwch chi'n glaf mewnol.

Er nad yw'n cael ei warantu ym mhob sefyllfa, yr ardaloedd hyn yw'r rhai mwyaf tebygol o gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, yn enwedig lle gofynnwyd am eich dewis iaith a lle gweithredwyd ar hynny, a lle mae staff wedi dangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Fel y dangosir yn yr adroddiad hwn, mae gan BIPCTM brosesau ar waith i sicrhau y gall staff sy'n siarad Cymraeg adnabod eu hunain fel siaradwyr Cymraeg i'n cleifion. Mae hyn yn cynnwys y gwisgoedd mae nyrsys yn eu gwisgo a rhoi cortynnau gwddf i staff sy'n siarad Cymraeg lle maen nhw'n cael eu gwisgo.


Chwiliwch am y  symbol ar wisgoedd; mae hyn yn golygu bod yr aelod staff yn gallu siarad Cymraeg ac yn gyfforddus yn gwneud hynny.

Mewn gwirionedd, gallai'r aelod staff hwnnw fod yn un o:

- Dros **200** o'n nyrsys neu fydwragedd â sgiliau yn y Gymraeg;
- Dros **70** o'n Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd â sgiliau yn y Gymraeg;
- Bron i **100** o'n Therapyddion, Radiograffwyr neu Fferyllwyr â sgiliau yn y Gymraeg;
- O leiaf **35** o'n meddygon neu ymgynghorwyr â sgiliau yn y Gymraeg.

Felly hyd yn oed os nad ydych chi'n defnyddio un o'r gwasanaethau a amlinellir yn y dadansoddiad manwl [yma](#), dydy hyn ddim yn golygu nad oes gan y gwasanaeth unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg.

Beth am Ofal Sylfaenol, fel fy Meddyg Teulu?

Gall llawer o wasanaethau Gofal Sylfaenol yn rhanbarth BIPCTM gynnig eu gwasanaeth yn y Gymraeg. Defnyddiwch yr offeryn hwn [yma](#) yn y Gymraeg o dan 'Dod o Hyd i'm Gwasanaeth GIG'. Os gall y darparwr ddarparu rhai neu'r cyfan o'i wasanaethau yn y Gymraeg, bydd y symbol hwn  yn cael ei ddefnyddio i ddangos hyn.

Beth am fathau eraill o wasanaethau?

Yn ogystal â defnyddio'r Gymraeg mewn apwyntiad neu ar ein wardiau, a phan fydd staff wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, gallwch hefyd fod yn hyderus am y canlynol:

- Byddwch yn derbyn ymateb yn y Gymraeg os ysgrifennwch atom yn y Gymraeg;
- Byddwch yn derbyn gohebiaeth fel llythyrau apwyntiad yn y Gymraeg;
- Fe welwch chi'r Gymraeg o'ch cwrpas pan fyddwch chi'n ymweld â'n safleoedd ar arwyddion ac arddangosfeydd;
- Gallwch ddefnyddio ein gwefan yn y Gymraeg heb unrhyw broblemau;
- Gallwch gael mynediad at ein sianeli cyfryngau cymdeithasol pwysicaf yn y Gymraeg.

Mae hyn yn seiliedig ar ein gwiriadau mewnol a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaeth fod yn hyderus yn y gwasanaethau a ddarparwn.

5: Sut ydych chi wedi gwella sgiliau Cymraeg eich gweithlu presennol?

Blwyddyn sy'n torri record i ddysgu Cymraeg yn BIPCTM!

Rydym wrth ein bodd yn rhannu bod **205** o aelodau staff wedi cael eu cefnogi eleni i gymryd cam tuag at y Gymraeg yn y gwaith—naill ai trwy gyfranogiad uniongyrchol neu drwy gyfleoedd rydym wedi eu hariannu. Mae hynny'n **141** yn fwy o staff na'r llynedd, sy'n nodi cam enfawr ymlaen yn ein hymrwymiad i gynyddu hyder i ddefnyddio ein Cymraeg ar draws y sefydliad. Gwnaed y llwyddiant hwn yn bosibl oherwydd yr ymarfer cynllunio strategol a gynhaliwyd ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, gan nodi beth oedd y cynnig, sut a ble i'w hyrwyddo a beth oedd ein mesurau llwyddiant a'n dull gwerthuso.

Wedi cyflwyno cannoedd o oriau o ddysgu, mae'r cyflawniad hwn yn adlewyrchu angerdd ac ymroddiad ein gweithlu a'n rheolwyr i gofleidio a hyrwyddo'r Gymraeg ym mywyd gwaith bob dydd.

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cymryd rhan—rydych chi'n helpu i wneud y Gymraeg yn rhan fyw a ffyniannus o BIPCTM. Gallwch ddarllen mwy isod.

Sesiynau Croeso i'r Gymraeg mewnol

Yn BIPCTM, mae ein Sesiynau Croeso i'r Gymraeg wedi'u cynllunio i rymuso staff gyda'r sgiliau Cymraeg hanfodol sydd eu hangen i gysylltu'n well â chleifion a chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae'r sesiynau rhyngweithiol mewnol, 2 awr o hyd hyn yn canolbwyntio ar ymadroddion pob dydd a geirfa ymarferol, gan helpu staff i ddarparu gwasanaeth mwy cynhwysol, parchus a sensitif yn ddiwylliannol.

Mae'r fenter hon yn cefnogi ein hymrwymiad i Gam Gweithredu 17 yn cynllun 5 mlynedd ar gyfer ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg: sicrhau bod gan 30% o staff yn y meysydd a nodwyd o leiaf Lefel 1 yn y Gymraeg erbyn 2027.

Er mwyn sicrhau bod y sesiynau'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, rydym wedi gwerthuso eu heffaith gan ddefnyddio Model Kirkpatrick—fframwaith dibynadwy mewn Dysgu a Datblygu.⁴ Mae'r dull aml-lefel hwn yn ein helpu i fesur nid yn unig boddhad, ond hefyd dysgu, newid ymddygiad, a chanlyniadau yn y byd go iawn. Yn hytrach na chanolbwyntio ar un elfen yn unig sef mwynhad y dysgwyr, mae'n bwysig ymchwilio o dan yr wyneb os yw hyfforddiant am gael yr effaith angenrheidiol.

Gellir gweld rhai canlyniadau ar gyfer effaith yn y byd go iawn isod o ddata hyd at fis Mawrth 2025:

- Cwblhaodd **140** o aelodau staff sesiwn
- Nododd **100%** o'r cyfranogwyr eu bod wedi mwynhau'r sesiynau;
- Cyrhaeddwyd **94%** o'r targed blynyddol a osodwyd ar gyfer staff yn cwblhau'r sesiynau;
- **22** sesiwn wedi'u cynnal hyd at fis Mawrth 2025;
- **44** awr o hyfforddiant wedi'i ddarparu;
- Aeth **61%** o ddysgwyr ymlaen o Lefel 0 i Lefel 1 mewn Siarad a Gwranddo ar y Cofnod Staff Electronig (ESR);
- Cyfradd drosi o ddiddordeb cychwynnol i gymryd rhan o **80%**;
- Roedd **65%** o'r mynychwyr mewn rolau clinigol;
- Cyfradd presenoldeb mewn sesiwn i'r rhai a archebodd o **81%**;
- Mae dros **60** o staff wedi ymuno â Rhwydwaith Dysgwyr Cymraeg newydd ar MS Teams.

⁴ Kirkpatrick, Donald L. *Evaluating Training Programs: The Four Levels*. San Francisco: Emeryville, CA: Berrett-Koehler; Publishers Group West [dosbarthwr], 1994.

Adborth Cyfranogwyr

"Mwynheais yr hyfforddiant yn fawr iawn. Rwy'n bwriadu gwella fy sgiliau ymhellach gyda chwrs a cheisio siarad â chydweithwyr a chleifion yn y Gymraeg a'r Saesneg."

"Hawdd ei ddilyn, hyd priodol. Byddaf yn gallu siarad Cymraeg yn fwy hyderus gyda staff a chleifion."

"Roeddwn i wrth fy modd! Roedd yn hwyl, yn ddiddorol, ac yn gwneud i mi eisiau dysgu"

"Roedd y tiwtor yn ardderchog—cefnogol, cyfeillgar, a gwnaeth y tiwtor y sesiwn yn hwyl."

"Rydw i eisoes wedi dechrau defnyddio cyfarchion fel 'Bore da' mewn cyfarfodydd a galwadau ffôn. Mae'n gam bach, ond mae'n teimlo'n wych."

"Rydw i wedi cofrestru ar gyfer cwrs 24 wythnos ac rydw i'n gwneud ymdrech ymwybodol i ddefnyddio beth rydw i wedi'i ddysgu gyda ffrindiau, teulu, a hyd yn oed diethriaid."

Uchafbwyntiau Dysgu

Dysgodd y staff sgiliau Cymraeg ymarferol gan gynnwys cyfarchion, dweud teitlau swyddi, ac ynganu.

Adroddodd llawer am fwy o hyder a mwy o ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r Gymraeg mewn e-byst, cyfarfodydd a rhyngweithiadau â chleifion, sy'n dangos bod newid wedi bod mewn ymddygiad.

Y Gymraeg yn CTM

Welsh at CTM

Cymraeg

Welsh Language Skills Self-Assessment Tool

Level 0 - No Skill	Level 1 - Entry	Level 2 - Foundation	Level 3 - Intermediate	Level 4 - Higher	Level 5 - Proficiency
--------------------	-----------------	----------------------	------------------------	------------------	-----------------------

Kim's Story:

